# HAMER, EDWARD (1840 - 1911), hynafiaethydd



**Enw:** Edward Hamer
**Dyddiad geni:** 1840
**Dyddiad marw:** 1911
**Rhiant:** Ann Hamer
**Rhiant:** Meredith Hamer
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awduron:** John Davies Knatchbull Lloyd, Edward Ronald Morris

Ganwyd 6 Chwefror 1840 yn Llanidloes yn fab i'r crydd Meredith Hamer a'i wraig Ann. Bu'n ysgolfeistr yn Snatchwood, Talywain (1867), ac Abersychan (1875), sir Fynwy. Dychwelodd i Lanidloes yn 1878 ac ymhen ychydig flynyddoedd aeth i Birmingham.

Ei waith cyntaf oedd *The Chartist Outbreak at Llanidloes*, a gyhoeddwyd yn 1867. Ysgrifennodd i *Archaeologia Cambrensis* (e.e. ' Earthworks of Ancient Arwystli') ac i *Montgomeryshire Collections* (e.e., ' Parochial History of Llangurig,' 1869-70); ditto, ' Llanidloes,' 1871-8; ditto, ' Trefeglwys,' 1879, eithr ni chwplaodd mo'r olaf. Bu'n helpu'r Parch. W. V. Lloyd gyda nodiadau'r gwr hwnnw ar siryfion sir Drefaldwyn (yn *Mont. Coll.*) a'r Chevalier J. Y. W. Lloyd gyda'i *History of Powys Fadog* 1881-7.

Bu farw yn Bordesley, Birmingham, 24 Tachwedd 1911 yn 72 oed.

## Awduron

**John Davies Knatchbull Lloyd**

**Edward Ronald Morris**

## Ffynonellau

E. Hamer, *A Brief account of the Chartist outbreak at Llanidloes, in the year 1839* (1867, 1939)

gwybodaeth gan Mr. David Rowlands, Y Drenewydd

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732942

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu